



Yr Holocost a Chymru Kindertransport 1

Bywyd Iddewig yng Nghanolbarth Ewrop cyn yr Ail Ryfel Byd

Crëwyd gan y Ganolfan Astudio
Symudedd Pobl (CASP) ym
Mhrfysgol Aberystwyth



Crëwyd mewn partneriaeth rhwng CASP a Chymdeithas
Hanes Iddewig De Cymru (CHIDC) a'i ariannu gan
Gymdeithas y Ffoaduriaid Iddewig (AJR)



Yr Holocost a Chymru

Kindertransport 1

Bywyd Iddewig yng Nghanolbarth Ewrop cyn yr Ail Ryfel Byd

Adnodd 1 o 4 yw hwn ar destun Kindertransport a gellir ei ddefnyddio ochr yn ochr â'r 3 adnodd arall. Mae'r adnoddau'n archwilio hanesion plant a oedd yn ffoaduriaid a ddaeth ar y Kindertransport i Gymru.

Mae'r adnodd gyntaf hon yn archwilio bywyd merch ifanc Iddewig o Awstria, Dorothy Fleming, cyn iddi gyrraedd Caerdydd.

Mae'n cynnwys:

- Gwybodaeth gefndir am y Kindertransport a ble i ddarganfod mwy
- Diffiniadau defnyddiol: 'ffynhonnell hanesyddol', 'hanes llafar' ac 'Anschluss'
- Bywgraffiad byr o Dorothy Fleming
- Dolenni i glipliau sain o 2 recordiad hanes llafar o Dorothy Fleming
- Taflen waith "Dorothy Fleming: Bywyd yn Fienna, Awstria ym 1938". Mae'r daflen waith hefyd yn cynnig cyfle i ddysgwyr grynhoi eu dysgu a gellid ei defnyddio i asesu cynnydd
- Trawsgrifiadau o'r clipiau sain

Mae'r adnodd yn rhagdybio dealltwriaeth sylfaenol o'r Holocost. Efallai y byddwch am gyflwyno taflen waith Ymddiriedolaeth Addysgol yr Holocost (HET), ['Diffinio'r Holocost'](#), cyn archwilio'r adnoddau hyn. Gweler hefyd [Egwyddorion Cyffredinol HET ynglŷn ag Addysgu am yr Holocost](#).



Gwybodaeth gefndir am y Kindertransport

Cyn gynted ag y daeth Adolf Hitler a'r Natsïaid i rym yn yr Almaen ym mis Ionawr 1933, dechreuwyd erlid eu gwrthwynebwyd gwleidyddol a thrigolion Iddewig. Ceisiodd llawer ohonynt ddianc rhag yr erledigaeth hon trwy ffoi, ond ychydig o wledydd o gwmpas y byd oedd yn fodlon eu derbyn.

Gwaethygodd y sefyllfa yn sgil y pogrom mis Tachwedd (Kristallnacht) a chyfeddiant yr Almaen o Awstria a Tsiecoslofacia ym 1938 a 1939. I lawer, 'roedd y rhybudd bellach yn glir. O 1933-39, bu 400,000 o ffoaduriaid yn ffoi rhag y Drydedd Reich.

'Roedd 'na reolau llym ynglyn â mynediad i'r DU. Dim ond i'r ffoaduriaid hynny oedd â'r posibilrwydd o ymfudo'n barhaol i rywle arall, neu yr ystyrid bod eu presenoldeb yn fanteisiol i'r DU y rhoddwyd fisâu. Roedd rhai'n cael dod i'r wlad trwy gymorth perthnasau, ffrindiau neu elusennau. Erbyn mis Medi 1939, 'roedd tua 78,000 o ffoaduriaid o Ganol Ewrop yn byw yn y DU, ac 'roedd 12,000 ychwanegol wedi cyrraedd ac ail-ymfudo. 'Roedd tua 90% o'r ffoaduriaid hyn yn Iddewig, a mwy na thebyg daeth tua 2,000 ohonynt i Gymru. Ar ddechrau'r rhyfel, daeth mewnfudiad o Reich yr Almaen i ben i bob pwrpas.

Wrth ffoi ledled Ewrop i ddianc rhag y Natsïaid, cyrhaeddodd tua 10,000 o blant Iddewig Brydain Fawr rhwng Rhagfyr 1938 a Medi 1939 ar Kindertransport (Trafnidiaeth Plant). Cynllun hepgor fisa oedd hwn ar gyfer plant a oedd yn cael eu herlid am fod yn Iddewig yn Reich yr Almaen ac roedd yn ymateb i bwysau cyhoeddus ar ôl pogrom Tachwedd. Roedd yn rhaid i blant gael eu gwarantu gan flaendal o £50 gan noddwr (e.e. unigolion, y gymuned Iddewig, grwpiau eglwysig, cwmnïau cydweithredol gweithwyr), a oedd yn talu am eu cynhaliaeth hyd at ddeunaw oed – dros £4,000 mewn arian heddiw.



Dim ond plant dan oed ar eu pen eu hunain a dderbyniodd llywodraeth Prydain trwy'r cynllun hwn, er bod y rhan fwyaf ohonyn nhw'n byw gyda'u rhieni ac aelodau eraill o'u teuluoedd cyn iddyn nhw ffoi. Teithiodd y rhan fwyaf o Reich yr Almaen ar drên ac yna mewn cwch (gan adael yr Iseldiroedd fel arfer a chyrraedd Harwich yn Essex), ond hedfanodd eraill mewn awyren.

Trefnwyd y cludiant gan sefydliadau ar y Cyfandir a gan y Refugee Children's Movement, sefydliad ymbarél yn y DU. Roedd rhai plant yn cael eu cefnogi gan grwpiau nad oedden nhw'n lldewig, fel Cymdeithas y Cyfeillion (Crynwyr). Nid oedd llywodraeth Prydain yn ariannu nac yn trefnu'r cludiant. Cawsant eu trefnu gan gannoedd o wirfoddolwyr. Nicholas Winton, bancwr Prydeinig, yw un o'r rhai mwyaf adnabyddus, ond roedd llawer o rai eraill. Helpodd Winton i achub 669 o blant trwy drefnu cludiant o Prague, Tsiecoslofacia.

Daeth llawer o blant i Gymru. Arhosodd rhai gyda pherthnasau, cafodd eraill eu maethu gan deuluoedd Cymreig. Rhwng 1939 ac 1941 cafodd tua 200 o blant lldewig ar ffo lety yng Nghastell Gwrych yn Abergele, yn ogystal â Chastell Llandochau ym Morgannwg. Yn ystod y rhyfel, cafodd plant eraill eu symud i Gymru o ardaloedd megis Llundain, neu Ysgol Gwladwriaeth Tsiecoslofacia yn Llanwrtyd, a leolid yn yr Abernant Lake Hotel rhwng 1943 ac 1945.

I gael rhagor o wybodaeth am y Kindertransport, gweler:

- <https://encyclopedia.ushmm.org/content/en/article/kindertransport-1938-40>
- <https://wp-research.aber.ac.uk/nsrefugeeswales/cy/hanes/plant-y-kindertransport/>



Llyfrau: Andrea Hammel, The Kindertransport: What Really Happened (Polity, 2024); Jennifer Craig-Norton, The Kindertransport: Contesting Memory (Indiana University Press, 2019); Vera K. Fast, Children's Exodus: A History of the Kindertransport (I.B. Taurus, 2011); Judith Tydor Baumel-Schwartz, Never Look Back: The Jewish Refugee Children in Great Britain, 1938-1945 (Purdue University Press, 2012)

Beth yw 'ffynhonnell hanesyddol'?

Gellir ystyried unrhyw weddillion (neu 'olion') o'r gorffennol yn ffynhonnell. Gall fod yn ddogfen, ond gall hefyd fod yn adeilad, yn ddarn o gelf neu'n wrthrych byrhoedlog - tocyn trê, neu efallai bâr o esgidiau. Mae'r rhain i gyd yn 'ffynonellau' oherwydd maen nhw i gyd yn rhoi gwybodaeth i ni mewn gwahanol ffyrdd a all ychwanegu at gyfanswm ein gwybodaeth am y gorffennol.

Ond dim ond pan fydd yr hanesydd yn eu dehongli er mwyn gwneud synnwyr o'r gorffennol y daw ffynonellau yn dystiolaeth hanesyddol. Bydd yr atebion a roddir ganddyn nhw'n dibynnu i gryn raddau ar y math o gwestiynau mae haneswyr yn eu gofyn a'r hyn mae'r hanesydd eisiau ei wybod. Dyna pam nad yw'n gwneud llawer o synnwyr i ofyn a yw rhywbeth yn 'dystiolaeth hanesyddol dda', heb wybod pa dystiolaeth y mae i fod i'w darparu.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler:

- <https://www.hist.cam.ac.uk/getting-started-reading-primary-sources>
- <https://www.history.org.uk/primary/resource/10764/whats-important-about-sources-and-evidence>



Beth yw Hanes Llafar?

Gellir diffinio hanes llafar fel cofnodi, cadw a dehongli gwybodaeth hanesyddol, yn seiliedig ar brofiadau personol a barn y siaradwr, ac fel arfer mae'n cael ei recordio trwy gyfweiliadau. Gall fod ar ffurf tystiolaeth llygad-dyst am y gorffennol, ond gall gynnwys llên gwerin, chwedlau, caneuon a straeon a drosglwyddwyd ar lafar dros y blynyddoedd.

I gael rhagor o wybodaeth am hanes llafar, gweler:

- https://en.wikipedia.org/wiki/Oral_history
- <https://le.ac.uk/history/outreach/besh/oral-history/what-is>

Diffiniad o Anschluss

Meddianwyd Awstria gan yr Almaen Natsiaidd ym mis Mawrth 1938 – dyma oedd yr Anschluss. Er ei fod wedi'i wahardd dan Gytundeb Versailles, croesawyd y symudiad gan lawer o Awstriaidd, a oedd hefyd yn siaradwyr Almaeneg. Ni wnaeth pwerau Ewropeaidd eraill gosbi'r Natsiaid am wneud hyn, sef ehangu tiriogaethol cyntaf y Natsiaid. Yn fuan dechreuodd Awstria erlid ei thua 200,000 o ddinasyddion Iddewig.

Ril newyddion byr (1.51 munud) gan yr Associated Press am yr Anschluss:

- <https://www.youtube.com/watch?v=SlOKx9sHoso>

I gael rhagor o wybodaeth am yr Anschluss, gweler:

- <https://www.ushmm.org/collections/bibliography/anschluss>



Ffynhonnell hanesyddol 1: Bywgraffiad byr o Dorothy Fleming

Ganed Dorothy Fleming yn Fienna, Awstria ym 1928. Daeth o deulu Iddewig dosbarth canol a bu'n byw bywyd hapus tan yr Anschluss ym 1938. Roedd yn ddeg oed pan anfonodd ei rhieni hi a'i chwaer ar Kindertransport i Brydain er mwyn dianc rhag y Natsiaid ym 1939. Treuliodd lawer o'r Ail Ryfel Byd gyda pherthnasau yng Nghaerdydd a mynychodd Ysgol Howell's. Yn wahanol i lawer o blant y Kindertransport, llwyddodd rhieni Dorothy i ffoi i Loegr. Daeth yn ddinesydd Prydeinig ym 1947 ac yn ddiweddarach cymhwysodd fel athrawes, gan sefydlu meithrinfa Iddewig gyntaf Sheffield, lle bu'n bennaeth tan ei hymddeoliad.

Ffynhonnell hanesyddol 2: [Clip Sain 1: Dorothy Fleming – Plentyndod cynnar](#)

Ffynhonnell hanesyddol 3: [Clip Sain 2: Dorothy Fleming – Bywyd ar ôl yr Anschluss](#)

Dorothy Fleming: Bywyd yn Fienna, Awstria ym 1938



Dinasyddion Awstria yn ymgasglu yn Heldenplatz yn Fienna i wrando ar ddatganiad Hitler o'r Anschluss, 15 Mawrth 1938

Delwedd: Wikimedia Commons
Awdur y ddelwedd: Heinrich Hoffmann
Dogfen wreiddiol yn cael ei gadw gan USA National Archive yn Washington, D.C.

Mae'r gwaith hwn yn y parh cyhoeddus

Ar ôl mis Mawrth 1938, gwaethygodd pethau'n gyflym. Erbyn mis Tachwedd 1938, nid oedd plant Iddewig yn cael mynd i'r ysgol gyda phlant nad oeddent yn Iddewon ac erbyn Mehefin 1942, nid oeddent yn cael mynd i'r ysgol o gwbl.

Rhai o'r deddfau gwrth-Iddewig a orfodwyd ar Dorothy a'i theulu ym mis Mawrth 1938:

- Mae pobl Iddewig yn colli eu hawliau fel dinasyddion yr Almaen/Awstria
- Ni chaniateir i bobl Iddewig fod yn aelodau o glybiau chwaraeon
- Ni chaniateir i bobl Iddewig briodi pobl sydd ddim yn Iddewon
- Ni chaniateir i bobl Iddewig weithio i'r llywodraeth

Ymhen amser, ni allai pobl Iddewig fynd i'r sinema, gyrru car, prynu cylchgrawn, gwrando ar y radio, aros allan yn hwyr neu hyd yn oed fod yn berchen ar fusnes. Gellid eu gorfodi i adael eu cartrefi ar unrhyw adeg ac roedd yn rhaid iddynt wisgo seren felen ar eu dillad, fel bod pobl yn gwybod eu hunaniaeth. Roedd yn amser dychrynlyd a pheryglus.



TASG: Cwblhewch y blychau isod i ddisgrifio rhai o'r newidiadau a wynebodd Dorothy a'i theulu. Defnyddiwch y wybodaeth a ddarperir yn y testun a'r hyn a glywsoch yn hanes llafar Dorothy.

Newidiadau ym mywyd y cartref:

Newidiadau ym mywyd yr ysgol:

Newidiadau ymhlith ei chyd-ddisgyblion:

Newidiadau i weithgareddau hamdden:



Trawsgrifiadau

[Clip Sain 1: Dorothy Fleming – Plentyndod cynnar](#)

Es i i Kindergarten yn Fienna ac yna dechreuais yn yr ysgol gynradd gyffredin. Rwy'n cofio yr oedd yn academaidd iawn ac yn llym iawn. Pan fyddaf yn rhoi sgysiau am fy stori, rhywbeth rwyf yn ei wneud, rwy'n sôn wrth y bobl am sut roedden ni'n arfer gorfod eistedd gyda ein dwylo yn fflat ar y ddesg o'n blaenau oni bai ein bod ni'n ysgrifennu. Roedd hyn er mwyn i'r athro wybod ble roedd ein dwylo, a phan roedden ni'n ateb cwestiwn, roedd yn rhaid i ni eu codi gyda dim ond dau fys am i fyny fel saliwt y Sgowntiaid. Roedd yn ddisgybledig iawn ac yn academaidd iawn a dim ond y pynciau academaidd arferol roedden ni'n ei astudio.

Roedden ni'n mynd i'r ysgol yn gynnar yn y bore, a dim ond ysgol boreuol oedd gennych chi, ac yn y prynhawn, roeddech chi'n gwneud yr holl bethau allgyrsiol. A'r pethau roeddwn i'n ei wneud oedd sglefrio, nofio, gymnasteg, a fy ngwaith cartref, ac yn bwysicaf oll, Saesneg.

Roedd Mam yn fenyw anhygoel, er mai gyrru eich plant i wersi preifat er mwyn dysgu Ffrangeg oedd ffasiwn y cyfnod, roedd hi'n meddwl rywsut y gallai'r Saesneg fod yn fwy defnyddiol, ac yn wir, mi roedd hi'n iawn. Felly, cefais wersi preifat yn Saesneg, ac wrth i mi ddod i'r wlad hon pan oeddwn yn 10 oed, a phasio'r 11+ yn 11+, mae'r cyfan yn glod i'm hathro am wn i!

Felly ... dim ond ysgol gynradd gyffredin oedd yr ysgol gynradd gerllaw; roeddech chi'n mynd i'r ysgol leol, ac mae rhaid fy mod wedi gwneud yn gymharol dda. Ac yna es ymlaen i ysgol o'r enw Frauen-Erwerb-Verein, sy'n debyg i ysgol ddydd gyhoeddus i ferched, ysgolion ymddiriedolaeth yn y wlad hon, lle roeddwn yn dechrau'n gynnar; dwi'n meddwl y dylem fod wedi dechrau yno yn 11 oed ond roeddwn i yno eisoes pan oeddwn i'n 10 oed, ac roedd hwnnw'n academaidd iawn hefyd, ond roedd hi'n ymddangos fy mod i'n gwneud yn iawn. Y syniad oedd y byddai'r holl ferched yno yn mynd ymlaen i broffesiynau yn y pen draw, ac yn sicr yn mynd i'r brifysgol. Ond wrth gwrs, wnes i ddim aros yno yn ddigon hir er mwyn i hynny ddigwydd.

[...]

I Cefais blentyndod hapus iawn, oedd yn llawn gweithgareddau, ac roeddwn yn falch iawn pan gafodd fy chwaer ei geni pan oeddwn i'n chwech oed, ac mae gen i atgofion da iawn o ymweld â siop fy nhad, a mynd i'r opera, a nofio, a mynd ar wyliau hyfryd, a mynd i sgïo a sglefrio, a chwarae'r piano. Doeddwn i ddim mor awyddus a hynny i ymarfer ar y biano er i mi fod yn dechrau gwneud darnau cyn i ni ymadael ac roeddwn i'n mwynhau hynny; graddfeydd wnes i ddim mwynhau cymaint! Ac roeddwn i'n mwynhau fy ngwersi Saesneg, a mantais fawr i mi oedd fy mod i wedi bod oddi cartref ddwy neu dair gwaith cyn i mi ddod i'r wlad hon, felly, yn wahanol i lawer o'r plant eraill nad oedd erioed wedi bod i ffwrdd cyn ymfudo, nid oedd hi'n gymaint o sioc i mi.

[Clip Sain 2: Dorothy Fleming – Bywyd ar ôl yr Anschluss](#)

Ac rwy'n cofio'r newid ar ôl yr Anschluss, pan ddechreuodd amseroedd bwyta fod yn llawer mwy sombr, oherwydd i ddechrau fe wnaethant geisio peidio â thrafod yr hyn oedd yn digwydd o flaen y plant – fel mae pobl yn gwneud – ond wrth i amser fynd yn ei flaen aeth hi mor ddrwg nes i mi gofio'r chwerthin a'r jôcs yn stopio, ac roedd y trafodaethau i gyd ynghylch trwyddedau a fisas, a phobl a oedd wedi gallu dianc, a'r rhai nad oedd wedi gallu gwneud hynny.

[...]

Ac wrth gwrs, bu i bethau newid yn ddramatig yn yr ysgol, oherwydd ar ôl yr Anschluss, yn sydyn roedd y rhai ohonom ni yn y dosbarth a oedd yn lldewig yn cael eu cadw ar wahân i'r lleill – 'Rydych chi'n eistedd yn y fan acw, rydych chi'n lldewig, does dim rhaid i neb siarad â chi.' A dwi'n cofio llawer o'r merched yn ymuno â'r BDM, y Bund Deutscher Mädchen, sydd fel leuenctid Hitler i ferched, ac rydw i'n cofio'r hyn roedden nhw'n ei wisgo, gan gynnwys y sanau gwyn tri chwarter, ac mae'n rhaid i mi ddweud hyd heddiw, nid wyf yn hoff o sanau gwyn tri chwarter, er nad wyf yn niwrotig yn ei gylch ac roedd fy mhlant yn eu gwisgo yr un fath â phawb arall, ond nid wyf yn teimlo'n gyffyrddus yn eu cylch.

Ac mae gen i gof cryf iawn, iawn o'r amser hwnnw, rydw i bob amser yn adrodd i bobl eraill oherwydd ei fod wedi gwneud – roedd wedi



dylanwadu'n fawr arna i. Rwy'n cofio'r athrawes yn dweud wrth y plant fod gennym ni drefn newydd nawr, a byddwch chi wedi sylwi bod pethau'n wahanol, ac rydw i am i chi addo i mi y byddwch chi'n dod i ddweud wrtha i os ydych chi'n clywed eich rhieni neu unrhyw un o'u ffrindiau, neu eich brodyr a'ch chworydd, yn dweud unrhyw beth cas am y drefn newydd hon sydd gennym; rydych chi i ddod i ddweud wrthaf i. Felly, yr hyn yr oedd hi'n ei wneud, roedd hi'n annog y plant i ddweud ar eu rhieni tu ol eu cefnau, fel rydyn ni'n dweud, ac yn 10 oed roeddwn yn gweld hynny'n annioddefol, ac yn 67 oed, rwy'n dal yn ei weld yn annioddefol!

A phan oeddwn i'n hyfforddi athrawon, ym mhob grŵp blwyddyn y bŵm yn gweithio gyda nhw, dywedais yn ddieithriad wrthynt 'Rhaid i chi wneud yr hyn sy'n iawn yn eich barn chi, rhaid i chi weithio allan yr hyn sy'n iawn yn eich barn chi a glynu wrth y syniad hwnnw, nid ond yr hyn maen nhw, y tu hwnt i'r drysau hyn, yn dweud wrthyhych chi'.



AJR